DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 68 Mawrth 2008

Ail-leoli swyddfeydd Medrwn Môn

Rydym nawr wedi symud i'n swyddfeydd newydd a leolir oddi fewn i Adeilad Paynes Inuslation ar Barc Diwydiannol Bryn Cefni, Llangefni ers 3 Mawrth 2008.

Ein cyfeiriad newydd swyddogol yw:
Uned 5, Parc Diwydiannol Bryn Cefni, Llangefni. Ynys Môn. LL77 7XA

Mae ein rhifau ffôn, ffacs ac e-bost yn aros yr un fath.

Rydym yn dal i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i gyrraedd anghenion y sector gwirfoddol / cymunedol ar Ynys Môn.

Gweler isod cyfarwyddiadau i swyddfeydd Medrwn Môn - amgaeir cyfarwyddiadau a map yn Dan Do ar gyfer defnydd i'r dyfodol, os yn ansicr o'r lleoliad.

CYFARWYDDIADAU I MEDRWN MÔN

Gadewch yr A55 ar Gyffordd 6, ewch i'r dde ar y gylchfan, ar yr ail gylchfan cymerwch yr ail allanfa am Langefni. Parhewch am 800 medr a chymerwch y troad i'r dde i'r Stad Ddiwydiannol, parhewch i'r gylchfan ac ewch i'r chwith, ewch yn eich blaen at y gylchfan nesaf a throwch i'r dde cyn y garej Vauxhall, ewch i fyny'r allt am oddeutu 500 medr gan basio garej Elim, Menter Môn a Bimeda ar y chwith a chymerwch y 3ydd troad ar y chwith (Paynes), dilynwch y ffordd o amgylch a pharciwch ym maes parcio'r ymwelwyr.

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cadw'n yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

GWYBODAETH

Cronfa Llawr Gwlad

Roedd y grwpiau canlynol yn llwyddiannus i sicrhau arian o Gronfa Llawr Gwlad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a weinyddwyd gan Medrwn Môn.

Llais i Bawb - £300
Abba Stars Majorettes, Aberffraw - £380
Llangefni Scouts and Guides - £140.88
Camu Allan Volunteer Walk Leaders' Group - £352
Brush Strokes, Menai Bridge- £300
Cylch Ti a Fi Moelfre - £197.25
Prosiect Cerdd / Cerddoriaeth - £380
Malltraeth Ymlaen 'cyf' - £341.33
Anglesey Federation of Womens Institute - £200
Clwb Bro Nant y Pandy, Llangefni- £300
Steps - £380
Penysarn Youth Club - £300

Dan Do

O Fawrth 2008 ymlaen, ymgorfforir Dan Do Iechyd oddi fewn i Dan Do Môn, cylchlythyr i grwpiau gwirfoddol/cymunedol ar yr Ynys. Croesawn unrhyw erthygl neu storiau â chyswllt iechyd fydd o les er gwybodaeth i holl grwpiau gwirfoddol a gwirfoddolwyr. Cyhoeddir Dan Do bob yn ail fis, hefo dyddiad cau nesaf i gyflwyno erthyglau 15 Mai 2008 a bob yn ail fis o hynny ymlaen.

Cyrsiau Hyfforddi

Cynigir y cyrsiau hyfforddi canlynol yn Eglwys Bach, Malltraeth Street, Niwbwrch LL61 6SN:

SBAENEG AR GYFER GWYLIAU (4 WYTHNOS £12)

Dydd Llun 7,14,21,28 Ebrill, 1 – 2pm a 2.15 – 3.15pm

CYFRIFIADURON (4 WYTHNOS £12)
Dydd Llun 7,14,21,28 Ebrill
dechreuwyr: 1.00 – 2.15pm safon uwch: 2.30 – 3.45 pm

I archebu lle ar y cyrsiau ffoniwch 01248 440467

NEWYDDION CYLLIDO

Cynlluniau chwarae LankellyChase

Mae Sefydliad Lankelly Chase yn gwahodd ceisiadau am grantiau bach i gefnogi cynlluniau chwarae dros yr haf ledled y DU. Rhaid i'r cynlluniau chwarae fod o fudd i blant rhwng 5 a 13 oed ac yn ddelfrydol dylent bara rhwng 4 a 6 wythnos neu dylent fod ar ffurf gweithgareddau arbennig ar gyfer pobl ifanc sydd dan anfanteision penodol. Caiff prosiectau sydd â chefnogaeth gwirfoddolwyr cryf eu hannog, ynghyd â cheisiadau gan fudiadau sydd wedi'u harwain gan bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. Cefnogir gweithgareddau hefyd gyda phlant mewn llochesi a gyda gofalwyr ifanc. Rhoddir ffafriaeth i gynlluniau chwarae bach a fydd yn elwa fwyaf o grantiau bach rhwng £200 a £500. Ni roddir grantiau i gynlluniau sydd â chyllideb dros £12,000. Dylech wneud cais cyn gynted ag sy'n bosibl, ond ddim hwyrach na 2 Mai 2008.
(Ffynhonnell: www.fundinginformation.org 2008)

Sefydliad Esmee Fairbairn

Mae Sefydliad Esmee Fairbairn wedi lansio dull cyllido newydd. Caiff y rhan fwyaf o'i gyllid ei sianelu'n awr drwy'r brif Gronfa a fydd yn ffordd agored, lai rhagnodol, o weithio.

Mae'r Sefydliad yn disgwyl cyllido amrywiaeth ehangach o waith nag o'r blaen, er y bydd ei ddiddordebau craidd yr un fath ym maes diwylliant, addysg, yr amgylchedd a datblygu cymdeithasol.

Fel rhan o'r ffordd newydd o gyllido mae'r Sefydliad hefyd yn cynnal nifer o geinciau llai sydd a mwy o ffocws. Bydd y rhain mewn meysydd y mae'n credu y gallai ymyriad mwy uniongyrchol gael mwy o effaith.
Y tri cyntaf fydd:

- Bioamrywiaeth
- Casgliadau Amgueddfeydd a Threftadaeth
- Dulliau newydd o ddysgu

Mae'r Sefydliad yn cynllunio lansio rhagor o geinciau yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn. Mae Arweiniad y Brif Gronfa ar gael yn:www.esmeefairbairn.org.uk/funding/main-fund ac mae'r Arweiniad ar gyfer y Ceinciau Cyllido ar gael yn:
www.esmeefairbairn.org.uk/funding/funding-strands

NEWYDDION

Sefydliad Lloyds TSB Cymru a Lloegr

NEWIDIADAU YN LLOYDS TSB

Cefnoga Lloyds TSB miloedd o elusennau yn gweithio i atal amddifadedd ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r ffocws ar gefnogi elusennau bach a chanolig a dan ariannir gall wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl dan anfantais trwy eu helpu i chwarae rhan fwy cyflawn yn eu cymunedau o ddewis.

Er mwyn cyflawni'r uchod maent yn datblygu ffyrdd newydd o weithio mewn cyswllt a'u strwythur staff, a'r ffordd o gysylltu ag elusennau a'u rhaglenni rhannu grantiau.

Fel swyddogion rheng-flaen mewn cyswllt a'r sector wirfoddol maent yn ymwybodol o rôl werthfawr Cynghorau Gwirfoddol Sirol i'w helpu i gyflawni eu hamcanion.

Rhennir Cymru yn ddau ranbarth/ ardal, sef ***Gogledd Cymru*** a ***Chanol & De Cymru.*** Byddent a'u cyllideb a ddiogelir yn seiliedig ar boblogaeth ac amddifadedd. Bydd Swyddog grantiau yn gweithio ym mhob ardal, efo Rheolwr Gogledd Cymru yn ei le erbyn Ebrill 2008. Mike Lewis cyn rheolwr Cymru fydd rheolwr Canol a De Cymru ac mae'n barod mewn swydd.

Uwchraddiwyd safle we www.lloydstsbfoundation.org.uk i gynnwys gwybodaeth gyswllt, y broses ymgeisio newydd, ardaloedd daearyddol a rhaglenni grantiau

Manylion cyswllt: **Gogledd Cymru** - Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam.

Ffon: **0870 411 1223** (bydd hwn yn newid i rif symudol ar ôl recriwtio)

Bydd Lloyds TSB yn annog ag angen cyfarfodydd cyn-gyflwyno cais (darganfod ffeithiau) fel y gallant roi arweiniad i elusennau cyn iddynt gwblhau ffurflen gais.

Bydd rheolwyr yn gweithio ar eu pennau'u hunain ac o'u cartref.

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad i gyswllt newydd Gogledd Cymru yn syth, ac anwybyddu manylion cyswllt cyn swyddfa Cymru o ddiwedd Chwefror 2008

NEWYDDION CYLLIDO

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Ail-agorwyd y cynllun grantiau yn ddiweddar ar gyfer ceisiadau er budd pobl Cymru. Bydd angen dangos gwerth am arian, a dadansoddi eich costau'n glir trwy ddiffinio pa arian fydd ei angen arnoch ac i ba bwrpas.

Bydd angen dangos yn glir effaith y grant yma ar safon byw pobl sy'n gweithio a byw yng Nghymru. Cefnogir yn benodol brosiectau a anelir at y rheini sy'n wynebu camwahaniaethu neu anfantais. Bydd hefyd angen cyflwyno'r ddadl ynghylch pa gategori rydych chi'n perthyn iddi a bydd hyn yn pennu y swm cewch ymgeisio amdano.

Dyma'r categorïau: chwaraeon, y celfyddydau, yr amgylchedd a'r gymuned.
Y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw 4 Ebrill 2008.
Mae rhagor o fanylion ar gael gan Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm, Ffôn 029 2049 4963, E-bost: msct@fusionuk.org.uk

Comic Relief – grantiau bach

Y mae tair rhaglen o Grantiau Bach (o dan £5,000):

Pobl Hŷn
Yn cefnogi grwpiau a gweithgareddau sy'n helpu i leihau arwahanrwydd, yn arbennig ymhlith pobl hŷn hawdd eu niweidio a rhai dros 75 oed.

Iechyd Meddwl
Yn helpu pobl gyda phroblemau iechyd meddwl i leisio'u barn ar wasanaethau a pholisïau sy'n effeithio ar eu bywydau. Yn cefnogi grwpiau bach o dan arweiniad y defnyddwyr i ymgyrchu am newid.

Cymunedau Difreintiedig
Cyllidir grwpiau cymunedol lleol i newid pethau er gwell. Rhaid i'r grŵp gael ei redeg gan bobl leol mewn ardal dlawd a difreintiedig.

Gellir ymgeisio unrhyw adeg.

Mae grantiau ar gael i gyrff gwirfoddol a grwpiau hunangymorth gyda chyfansoddiad. Edrychwch ar: www.comicrelief.com/ukgrants am ragor o wybodaeth, canllawiau a phecyn cais. Ffôn: 0207 820 5555.

Barclays – Cronfa Grantiau Bach Age Concern

Nod y Gronfa hon yw cefnogi amrywiaeth eang o achosion y bydd pobl hŷn yn elwa arnynt. Mae clybiau gwirfoddol neu elusennol gyda dibenion cymdeithasol, hamdden neu gydfuddiannol eraill yn gymwys i wneud cais. Mae grantiau hyd at £500 ar gael i brynu offer ar gyfer gwasanaethau newydd a rhai sydd am ehangu, megis cadeiriau, offer cegin a llestri. Mae hefyd yn caniatáu eitemau megis chwaraewyr CD, gemau ac offer celf a chrefft a fydd yn datblygu neu ehangu'r gweithgareddau sydd ar gael i bobl hŷn. Gellir defnyddio'r grantiau hefyd tuag at gostau dathliadau, tripiau a digwyddiadau untro, megis tripiau i'r theatr, tripiau diwrnod a phartïon Nadolig.

Dyddiadau cau ceisiadau 2008: 10 Ebrill, 15 Mai, 12 Mehefin a 17 Gorffennaf. Am fwy o fanylion cysylltwch â'ch swyddfa Age Concern leol ar 01286 677711.

NEWYDDION CYLLIDO

Sefydliad Waterloo

Mae Sefydliad Waterloo yn dyfarnu grantiau i fudiadau elusennol yn y DU ac yn fyd-eang. Mae'n ymddiddori'n bennaf mewn prosiectau sy'n helpu ar raddfa fyd-eang, yn enwedig ym meysydd anghyfartaledd cyfoeth a newid yn yr hinsawdd, ac ar lefel gymunedol yng Nghymru. Mae'r Sefydliad yn anelu at ddyfarnu gwerth oddeutu £2 miliwn mewn grantiau i ddibenion elusennol bob blwyddyn a hynny yn y pedwar maes craidd: datblygu byd; datblygiad plant; yr amgylchedd; prosiectau yng Nghymru. (Ffynhonnell: diweddariad Grantfinder, Chwefror 08)

Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyllido gwelliannau adeileddol i eglwysi, capeli, a mannau eraill o addoliad sydd dros 100 oed yng Nghymru a Lloegr. Ystyrir pob cais a dderbynnir ar sail unigol, dyfarnir grantiau a rennir i bedwar categori:

Grantiau Conglfaen - eglwysi sydd â nodweddion pensaernïol, cymdeithasol a hanesyddol bwysig efo diffyg ariannol o dros £15,000
Grantiau Safonol - i eglwysi sydd â diffygion dros £15,000 ond angen cymorth llai brys
Grantiau Sylfaenol - eglwysi yn edrych am rhwng £4,000 - £15,000
Grantiau Cyfleusterau - cymorth tuag at osod cyfleusterau newydd fel toiledau, gwresogi, neu gymorth tuag at wella mynediad.

Cysylltwch â: Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol,
31 Newbury Street, Llundain, EC1A 7HU
Ffôn: 0207 600 6090 E-bost: info@nationalchurchestrust.org

URDDAS A PHARCH MEWN GOFAL

Lansiwyd rhaglen Urddas a Pharch mewn Gofal gan Lywodraeth y Cynulliad mis Hydref 2007. Bwriad y rhaglen yw creu sustem ofal ble bydd dim goddefiant o gam-drin nac amharchu pobl hyn. Mae Grŵp Gweithiol wedi ei sefydlu ym Môn, gydag aelodau yn dod o'r Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Gogledd Orllewin Cymru, Fforwm Gofalwyr Cymru a'r Sector Wirfoddol. Mae'r grŵp yn y broses o drefnu amserlen ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ymysg holl ddarparwyr gofal ar draws pob sector, ynghyd ac ymgynghori gyda phobl hyn. Mae siarter yn y broses o gael ei chytuno arni ar y cyd gyda'r gwahanol asiantaethau ar y grŵp. Bydd y siarter yn dod yn rhan o hyfforddiant a monitro gwasanaethau, a gobeithir y bydd yn cael ei fabwysiadu gan y sectorau statudol, preifat a gwirfoddol. Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Swyddog Cynnwys y Cyhoedd yn Ysbyty Gwynedd neu Maureen Haf yn Medrwn Môn.

NEWYDDION

BBC Cymru Wales

Mae BBC Cymru Wales yn newid arddull darllediadau elusennol, gan wneud cyfleoedd darlledu i elusennau yng Nghymru yn fwy effeithiol. Bob blwyddyn mae BBC Cymru Wales yn cynnig y cyfle i elusennau Cymreig gyrraedd cynulleidfa ehangach a thynnu sylw at eu gwaith ar-lein, ar y radio a'r teledu.

I ddarganfod sut y gallech gael eich ystyried ar gyfer darllediadau yn y dyfodol cysylltwch â'r Swyddfa Darllediadau Elusennol, Ystafell M1010, Y Ganolfan Ddarlledu, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YQ. Ffon 029 2032 2094, e-bost elusennau@bbc.co.uk neu gweler bbc.co.uk/waleschariti es

---

HYFFORDDIANT

CYFLOGI A RHEOLI POBL – Mae sawl agwedd gwahanol ynghlwm wrth gyflogi a rheoli pobl, ac nid ydynt pob amser yn hawdd!

GORUCHWYLIO A GWERTHUSO

Ar ddiwedd y sesiwn yma, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn:

- Deall manteision goruchwylio a gwerthuso i staff a'r mudiad
- Adnabod y gwahaniaeth rhwng goruchwylio a gwerthuso
- Datblygu a rhoi ar waith sustemau priodol i oruchwylio a gwerthuso

Dydd Mawrth: 20fed o Fai 2008. 10.00am – 3.30pm
Ystafell Gynhadledd Rhosyr, Adran Economaidd, Canolfan Fusnes Môn, Parc Diwydiannol Bryn Cefni, Llangefni.

Cost: £13.00 yn cynnwys cinio Dyddiad cau: 1af o Fai 2008.

CYFRAITH CYFLOGAETH

Ar ddiwedd y sesiwn yma, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn:

- Cael diweddariad ar ddeddfwriaeth cyflogaeth gyfredol
- Deall eu cyfrifoldebau
- Bod yn ymwybodol o effaith deddfwriaeth cyflogaeth ar bolisiau personel a gweithdrefnau oddi fewn i'r sefydliad

Dydd Mawrth: 27ain o Fai 2008. 10.00am – 3.30pm
Ystafell Gynhadledd Rhosyr, Adran Economaidd, Canolfan Fusnes Môn, Parc Diwydiannol Bryn Cefni, Llangefni.

Cost: £13.00 yn cynnwys cinio Dyddiad cau: 5ed o Fai 2008.

Os â diddordeb dychwelwch y daflen werdd amgaeedig yn Dan Do 68.

NEWYDDION CENEDLAETHOL

Y Sector yn cwrdd â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

Prif ffocws cyfarfod cyntaf y sector gyda Jane Davidson AC yn ei swydd newydd fel Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ym mis Tachwedd 2007 oedd papur am gyfraniad y trydydd sector tuag at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac ynni adnewyddadwy. Roedd y papur hwn wedi cael ei baratoi mewn ymateb i gais gan y Gweinidog yn y cyfarfod blaenorol ym mis Gorffennaf 2007, yn gofyn i'r sector ystyried y tair blaenoriaeth yn ei phortffolio - newid yn yr hinsawdd, ynni adnewyddadwy a mynediad i gefn gwlad - a'r hyn y gallai'r sector ei wneud yn y meysydd hyn.

Ymatebodd y Gweinidog i nifer o gynigion ac argymhellion yn y papur, a chytunodd fod y sector mewn safle unigryw i hybu camau gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Cadarnhaodd unwaith eto fod cyfraniad y sector yr un mor bwysig â chyfraniad y llywodraeth o ran mynd â chamau gweithredu rhagddynt, ac awgrymodd y gallai'r papur a thrafodaeth ddilynol arwain at bapur y gallai Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei ystyried.

Roedd eitemau eraill ar yr agenda'n cynnwys adroddiad chwe misol y Gweinidog am y cynnydd a wnaed o ran gweithredu Cynllun y Sector Gwirfoddol yn ei Hadran, y wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Gweithredu Strategol Cynllun y Sector Gwirfoddol, cefnogi gwirfoddoli gwyrdd (papur ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector), y wybodaeth ddiweddaraf am waith nrg4SD (Rhwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu Cynaliadwy) a'r adolygiad o Gynllun Gweithredu Strategaeth yr Amgylchedd, a chytunwyd y byddai materion sy'n codi o'r papur gwirfoddoli gwyrdd yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn.

Cytunwyd y byddai'r canlynol yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf gyda'r Gweinidog ym mis Mai 2008 – y wybodaeth ddiweddaraf am y Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd, cyllideb 2008/2009 ar gyfer y portffolio Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, papur am ynni adnewyddadwy gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, y diweddaraf am bapur newid yn yr hinsawdd y sector, cyfraniad y sector at fynediad at gefn gwlad a'r cynllun gweithredu adrannol.

Cynhelir y cyfarfodydd hyn ddwywaith y flwyddyn dan nawdd Cynllun y Sector Gwirfoddol. I gael rhagor o wybodaeth am y cyfarfodydd hyn, gdavies@wcva.org.uk cysylltwch â Gwenan Davies, Swyddog Polisi WCVA e-bost neu ffôn 01686 611050.

NEWYDDION GWLEDIG

Dechrau da i faterion gwledig

Cyfarfu rhwydweithiau'r trydydd sector gyda'r Gweinidog dros Faterion Gwledig, Elin Jones AC, ar 12 Rhagfyr 2007, dan nawdd Cynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol.

Cymru yn Gweithredu ar Siarter Carnegie

Cyflwynodd y trydydd sector y *Siarter ar gyfer Cymunedau Gwledig* gan Gomisiwn Carnegie dros Ddatblygu Cymunedol Gwledig i'r Gweinidog gan ofyn iddi ei hyrwyddo yn Llywodraeth y Cynulliad a sefydlu gweithgor trawsadrannol i ddatblygu sut y gellir mynd â chamau gweithredu'r Siarter rhagddynt mewn partneriaeth. Croesawodd y Gweinidog y *Siarter* fel dogfen gyda 'ffocws' ac ymrwymodd Lywodraeth y Cynulliad i weithio gyda'r trydydd sector i fynd â'i gamau gweithredu rhagddynt yng Nghymru.

Edrychodd y cyfarfod hefyd ar gynllun gweithredu cynllun y sector gwirfoddol sydd newydd ei lansio *Y Trydydd Dimensiwn* sy'n galw ar holl adrannau Llywodraeth y Cynulliad i lunio cynllun gweithredu unigol ar sut y byddant yn gweithio gyda'r trydydd sector ar:

- Gwirfoddoli - Datblygu cymunedol
- Llais y dinesydd - Mentrau cymdeithasol
- Cyd-gynhyrchu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae *Y Trydydd Dimensiwn* yn cyfeirio at *Siarter* Carnegie, ac mae'n argymell y dylai adrannau Llywodraeth y Cynulliad ystyried anghenion penodol cymunedau gwledig. Roedd Peter Owen, pennaeth yr uned sector gwirfoddol yn Llywodraeth y Cynulliad, yn cydnabod y byddai'r gwaith ar y Siarter yn galluogi'r rhan fwyaf o'r cynllun gweithredu adrannol ar Faterion Gwledig.

Gweithgarwch Lles Anifeiliaid

Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad am ei bwriad i ddeddfu ar gyfer syrcasau: does dim un syrcas wedi'i lleoli yng Nghymru a dangosodd adroddiad Defra fod lles anifeiliaid yn dderbyniol yn ystod chwarteri'r gaeaf, ond bod lefel uchel o bryder ymhlith y cyhoedd am les anifeiliaid syrcas fel y dangoswyd gan arolwg a gynhaliwyd gan Mori. Ymatebodd yr RSPCA drwy ddatgan eu bod yn siomedig gydag adroddiad Defra, ac y byddai'r Grŵp Hollbleidiol yn ymateb i Lywodraeth y Cynulliad ochr yn ochr ag ymgyrch gyhoeddus.

Gwaith Cynulliad Cymru ar 'Ardaloedd Gwledig ar y Cyrion'

Dywedodd y Gweinidog ei bod yn comisiynu rhywfaint o waith paratoi ar faterion sy'n ymwneud ag 'ardaloedd gwledig ar y cyrion' (ardaloedd perifferol) yn gynnar yn 2008, a'i bod yn awyddus i gynnwys y trydydd sector ar gam cynnar.

I gael copïau o'r cofnodion llawn, cysylltwch â cadams@wcva.org.uk neu ffoniwch: 01686 611050 neu ewch i www.wcva.org.uk dan polisi ac ymchwil – cynllun y sector gwirfoddol – cyfarfodydd gweinidogol.

Os hoffech dderbyn y newyddion diweddaraf am faterion gwledig dros yr e-bost a bod yn rhan o un o grwpiau cyfeirio'r trydydd sector: ymunwch â'r Rhwydwaith Polisi Gwledig sydd wedi'i hwyluso gan WCVA. Anfonwch e-bost at Constance Adams, Swyddog Polisi WCVA i ymuno, cadams@wcva.org.uk.

NEWYDDION

Ffocws y Gweinidog ar wasanaethau cyhoeddus

Cafodd Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Gwasanaethau Cyhoeddus, ei gyfarfod cyntaf ers ei benodi i'w bortffolio newydd, gyda rhwydweithiau'r sector gwirfoddol, dan nawdd Cynllun Sector Gwirfoddol y Cynulliad Cenedlaethol, ym mis Ionawr. Roedd y cyfarfod yn canolbwyntio ar gyfraniad y trydydd sector at yr agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus, gan gyfeirio'n benodol at ei swyddogaeth o ran ymgysylltu â dinasyddion, partneriaethau a chomisiynu, darparu gwasanaethau a chraffu.

Pwysleisiodd y Gweinidog ymrwymiad y llywodraeth i ymgysylltu â dinasyddion sy'n sail i'r agenda diwygio. Cydnabu fod cyflawni ymgysylltiad go iawn rhwng gwasanaethau cyhoeddus a'r bobl sy'n eu defnyddio yn peri sialensiau sylweddol, ac roedd yn croesawu'r cyfraniad y gallai nifer o fudiadau yn y trydydd sector ei wneud. Pwysleisiodd cynrychiolwyr y sector bwysigrwydd bod ymgysylltu yn fwy na dim ond ymgynghori, a bod angen i leisiau dinasyddion a defnyddwyr fod yn rhan o'r her a'r penderfynu.

Bu'r cyfarfod hefyd yn trafod swyddogaeth y sector o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Soniodd cynrychiolwyr y sector am yr angen i gael tegwch i sicrhau bod yr holl wasanaethau cyhoeddus yn rhwym wrth yr un drefn comisiynu a chaffael, a'r angen i olrhain i ba raddau yr oedd patrymau darparu gwasanaethau yn newid. Cyfeiriodd y Gweinidog at y Tasglu Caffael Busnes a gymeradwyodd arweiniad newydd yn ddiweddar gan Gwerth Cymru ar gaffael gan y trydydd sector, a'r potensial i fonitro sut yr oedd hyn yn effeithio ar gaffael lleol.

Croesawodd y cyfarfod y camau a oedd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y trydydd sector yng nghyswllt gwasanaethau cyhoeddus. Gwelwyd eu bod yn pennu agenda bwysig ar gyfer cyfranogi rhagor â'r sector, a chytunodd y Gweinidog i ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut yr oedd y camau hyn yn cael eu gweithredu. Byddai hyn yn sail ar gyfer trafodaeth barhaus yn y cyfarfod bob hanner blwyddyn nesaf.

Newyddion Ymddiriedolwyr CGGC

Ceir manylion diweddaraf Ymddiriedolwyr CGGC oddi ar eu gwefan. Ewch i: www.wcva.org.uk neu gallwch gael manylion gan Medrwn Môn.

EIN CYFEIRIAD YW:
Uned 5, Parc Diwydiannol Bryn Cefni
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7XA
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org